



Cyfres newydd, rhif 27

Gwanwyn 2014



**Nesewch at Dduw,
ac fe nesâ ef
atoch chwi.**

(Iago 4:8)

Annwyl ffrindiau,

Does dim prinder eglurebau i ddisgrifio cyflwr yr Eglwys heddiw ac mae'r stori ganlynol yn un o'r rhai mwyaf gafaelgar ohonynt. Cafwyd toriad yn y cyflenwad trydan yn un o ysbytai bach cefn gwlad Cymru nes peri i'r lifft stopio'n stond rhwng dau lawr yn yr adeilad. Dechreuodd un o'r teithwyr guro'n galed ar y drws a gweiddi'n uchel ar y bobl y tu allan i wneud rhywbeth yn gyflym i'w ryddhau o'i drybini. Gan gofio beth oedd polisi'r ysbyty mewn achos o argyfwng ceisiodd un o weithwyr yr ysbyty dawelu ofnau'r dyn. Gwaeddodd, 'Mae gan yr ysbyty gynhyrchydd trydan wrth gefn. Rhaid i bawb fod yn amyneddgar a pheidio â chynhyrfu. Ni fydd y dyn cynnal a chadw fawr o dro cyn adfer y cyflenwad trydan ac yna fe agorir y lifft a chaiff pawb ddod allan yn ddiogel.' Ond dyma'r dyn yn y lifft yn gweiddi'n ôl yn bryderus, 'Ond y fi yw'r dyn cynnal a chadw!'

Rydym i gyd yn teimlo o bryd i'w gilydd fel pe baem wedi ein dal rhwng 'lloriau papur ein byd', chwedl Gwenallt, heb unrhyw waredigaeth o fath yn y byd. Rydym yn gweld ein hunain yn aml yn llenwi sgidiau'r dyn cynnal a chadw. Allan 'fan 'na' – yn rhywle – y dylem ni fod yn ceisio gwneud rhywbeth ynglŷn â sefyllfa drist a thorcalonnus yr Eglwys heddiw, ond cawsom ein dal gan yr un ofnau a'r rhwystredigaethau ag a feddiannodd bawb arall. 'Feddyg, iachâ dy hun.' (Luc 4:23) Dyna alwad sydd bob amser yn crisialu gweinidogaeth Crist yn y byd, ond ar y gorau nid ydym ond y 'meddyg clwyfus'. Er hynny, priod waith yr Eglwys yw canfod y weledigaeth angenrheidiol i achub ac arwain pobl, gan gynnwys yr aelodau hynny sy'n perthyn iddi, i lefel uwch o aeddfedrwydd ysbrydol. Ni all yr Eglwys lygadrythu o hirbell ar ofnau a phryderon y byd ac yn sicr ni all daflu ystrydebau a chyffredinebau o bob math at amrywiol broblemau ein hoes. Rydym i gyd yn ddinasyddion y byd hwn a'r un iachawdwriaeth sydd ei hangen arnom.

Mae'n dilyn felly mai prif flaenoriaeth yr Eglwys heddiw, fel ymhob cyfnod, yw arddangos tosturi ac ymestyn allan i galon cymdeithas. Gelwir arni i wneud ei hun yn berthnasol i fywydau pobl gyffredin. Rhaid i'r Eglwys fyw'n barhaol ar faes y gad, yng nghanol y frwydr. Rhaid iddi fod yn fangre iachusol i deuluoedd drylliedig ac yn ddinas noddfa i'r rhai clwyfedig. Ei gorchwyl yw rhyddhau, gwaredu, achub, gofalu a chynorthwyo eraill i adfer eu hiechyd ysbrydol. Un peth sy'n sicr, mae poen, dioddefaint, tristwch a siomedigaeth yn endemig i'r siwrnai ddynol. Rydym i gyd yn teimlo'n flinedig ac yn isel ein hysbryd ar brydiau ac y mae yna frwydrau anodd i'w hymladd. Ond y newyddion da yw bod Iesu'n cynnig ysgafnhau ein beichiau. Mae ganddo eiriau sy'n llawn cysur a gobaith: 'Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi. Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon, ac fe gewch orffwystra i'ch eneidiau. Y mae fy iau i yn hawdd ei dwyn, a'm baich i yn ysgafn.' (Mathew 11:29, 30)

Cysur a diddanwch – dyna y mae'r Iesu'n ei gynnis. A ninnau bellach yn agosáu at y Groglith a'r Pasg mae Duw fel petai'n dweud wrthym, 'Rydw i wedi bod yn y fan yna. Rydw i wedi byw ar y ddaear. Wnes i ddim osgoi ffordd y Groes. Rydw i'n deall sut y mae hi arnat ti ac rydw i eisiau dy gynnal di.' Gofynnwyd un tro i'r offeiriad a'r diwinydd Henry Nouwen (1932–96) grynhoi efengyl Iesu yn y ffordd buraf bosibl. Meddyliodd yr ysgolhaig am eiliad ac yna llefarodd dri gair: 'Dewch yn agos.' Dyna'n union y mae Duw yn ei ddweud wrth y byd toredig heddiw, 'Dewch yn agos.'

Dal fi'n agos at yr Iesu
er i hyn fod dan y groes;
tra bwy'n byw ym myd y pechu
canlyn dani bura f'oes;
os daw gofid a thywyllwch,
rho im argyhoeddiad llwyr –
wedi'r nos a'r loes a'r trallod,
bydd goleuni yn yr hwyr.

E Herber Evans

Pasg bendithiol i chi i gyd.



Yr eiddoch yng Nghrist,
Wyn Morris (Bugail)

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:
Y Parch Wyn Morris,
Berwynfa, Penrhyn-coch,
Aberystwyth, SY23 3EW
01970 820939
berwynfa@btinternet.com***

Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

- 5 Ebrill Cyfarfod Cenhadol y Chwirydd, Gogledd Ceredigion
Capel Carmel, Llanilar, am 2.30 o'r gloch
Anerchir gan Dr Nerys Tudor, Penffordd-las
- 15 Ebrill Joio @ Morlan i blant Blynnydoedd 3-6
Canolfan y Morlan, 10-4 o'r gloch
- 18 Ebrill Oedfa Gymun ar fore'r Groglith am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Elwyn Pryse yn y Garn
- 20 Ebrill Oedfa Basg yr Ofalaeth
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch
- 11 Mai Cymanfa Ganu Unedig Eglwysi Gogledd Ceredigion
Capel Bethel, Aberystwyth
Cyfarfod y plant am 10; cymanfa'r oedolion am 5.30
dan arweiniad Mrs Margaret Daniel
- 29 Mehefin *Cymanfa Dydd yr Arglwydd*
Gŵyl yr Ysgolion Sul yn y Morlan am 11.15
Thema: 'Arwyr'
- Gwasanaeth y Cymun yn y Garn am 2 o'r gloch
Pregethir gan y Parch Ddr D Ben Rees

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn: www.capelygarn.org



Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

Menter Gobaith

Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuencid
(Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion)
d/o Swyddfa Merched y Wawr, Stryd yr Efail,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1JH

Ffôn: 01970 611510 E-bost: gogleddceredigion@gmail.com

Annwyl Ffrindiau,

Dyma nodyn byr i'ch hysbysu fod Menter Gobaith yn rhedeg **cystadleuaeth dylunio logo**. Mae'r gystadleuaeth yn agored i holl blant a phobl ifanc eich capeli/clybiau. Pwrpas y gystadleuaeth hon yw dylunio logo trawiadol (ond syml) fydd yn gymorth i bawb adnabod y Fenter yn sydyn a gwneud y Fenter yn unigryw i bob menter arall.

Mae angen i'r logo adlewyrchu prif amcanion y Fenter, sef:

- ◆ hybu'r efengyl ymhlith plant a phobl ifanc Gogledd Ceredigion;
- ◆ trefnu gweithgareddau sy'n llawn hwyl yng nghwmni ffrindiau;
- ◆ darganfod adnabyddiaeth bersonol o Iesu Grist.

Bydd angen i'r holl gynigion gael eu cyflwyno erbyn **5 Mai 2014**, drwy'r post neu e-bost; nid oes angen mwy nag un dudalen A4 a dim ond un ymgais y gellir ei derbyn gan bob plentyn neu berson ifanc.

Bydd yna **wobr gwerth £10** i'r enillydd, ac fe fydd y logo llwyddiannus yn cael ei greu yn logo proffesiynol i'r Fenter.

Byddwn yn gwerthfawrogi'n fawr eich cefnogaeth i'r gystadleuaeth hon er mwyn ein helpu i symud y Fenter yn ei blaen.

Diolch yn fawr,
Zoe Glynne Jones
(Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuencid)



Dydd Sul, 9 Chwefror, oedd diwrnod pwysig comisiynu Zoe Jones yn Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuentid y cylch. Cafwyd gwasanaeth teilwng dros ben yng Nghapel Seion, Aberystwyth, dan lywyddiaeth Dewi Hughes. Croesawyd pawb gan y Parch Andrew Lenny a chymerwyd rhan yn ogystal gan ieuentid oedd â chysylltiad â Zoe. Bu plant yr ysgolion Sul, gan gynnwys plant Penllwyn, yn cymryd rhan drwy gydganu'r emyn 'Diolch, diolch, Iesu'. Dr Owain Edwards o Goleg y Bala, lle bu Zoe yn gweithio am nifer o flynyddoedd, oedd y siaradwr gwadd, ac roedd neges bwrpasol a bendithiol iawn ganddo i'r plant.

Cafwyd gair o brofiad gan ein swyddog newydd ac roedd brwdfrydedd Zoe at y gwaith yn heintus. Dymunwyd yn dda iddi wrth iddi gyflawni gwaith ei Harglwydd yn ein plith.

Heulwen Lewis

CIC

Roedd Capel y Garn yn llawn bwrlwm ar y 27ain o Chwefror wrth i aelodau CIC fentro aros lan trwy'r nos i gasglu arian tuag at elusen Cancer Reaserch (elusen o ddewis yr ieuenctid).

Dechreuodd y noson am 8yh lle cawsom gyfle i chwarae lot o gemau tîm, rhedeg o gwmpas, chwarae ar y bwrdd pŵl a tennis bwrdd ac roedd un o'r ieuenctid wedi dod â Wii Games *console* i ni ei chwarae. Felly roedd digon i'n diddanu ni.

Am hanner nos cawsom gyfle i gael bwyd gyda'n gilydd. Fe wnaethom fwynhau'r *toasties* ham a chaws, a'r *chocolate fountain* gyda ffrwythau.

Rhwng 3yb a 6yb roeddem yn teimlo bod y cloc wedi stopio, yr oriau'n mynd yn araf ac roedd pawb yn dechrau blino, ond roedd pawb yn dda iawn yn annog ei gilydd i beidio cysgu. Fe aethom am dro sydyn rownd y maes parcio er mwyn helpu'r blinder, ac yna i basio'r oriau olaf fe wnaethom chwarae gemau bwrdd a chardiau.

Roeddem i gyd yn falch o weld Fal Jenkins yn cyrraedd am 7yb i wneud baps bacwn a chremnogau i ni. Hedfanodd yr awr olaf heibio, a chyn pen dim roedd yn amser mynd adref i gysgu!

Dwi mor falch o lwyddiant yr ieuenctid a gymerodd ran, a diolch yn fawr i bawb a ddaeth heibio yn ystod y nos i'n cefnogi. A chofiwch, mae yna amser o hyd i noddi aelodau CIC.

Mae hi wedi bod yn ffrainc i fod yn rhan o CIC ac mae wedi bod yn wych i adeiladu perthynas gyda'r ieuenctid sy'n mynychu'r clwb. Mae gennym raglen newydd wedi ei threfnu gyda nifer o weithgareddau cyffrous ar gyfer y tymor nesaf, megis helpa drysor, trip i'r Llain, noson gyda *sumo suits*, taith gerdded a llawer mwy.

Os hoffech fwy o fanylion cysylltwch gyda mi, Zoe Jones (Swyddog Menter Gobaith) ar 01970 611510 / 07584411524.



Mae'n wyth o'r gloch y bore ar y cloc! Llongyfarchiadau i'r ieuencid – a'r rhai ychydig yn hŷn – a lwyddodd i gadw'n effro drwy'r nos er mwyn codi arian at Ymchwil Cancr.

Joio @ Morlan

Pwy? Plant Blynnyddoedd 3–6

Pryd? Dydd Mawrth, 15 Ebrill

Amser? Rhwng 10.00–4.00 o'r gloch.

Lle? Canolfan Morlan, Aberystwyth

Dyma ddiwrnod o bob math o weithgareddau hwyliog wedi'u trefnu gan **Fenter Gobaith** (Menter Gyd-Enwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion) yn Morlan. Cyfle i blant ddod at ei gilydd i gael llawer iawn o HWYL!

Cysylltwch â Zoe Jones **erbyn 7 Ebrill** i gofrestru.

Zoe Jones – 01970 611510 neu zoejones34@gmail.com

Ffarwelio



Yn ystod mis Chwefror symudodd Mr Bryn Lloyd o Faes Ceiro i fyw yn ardal Caerdydd. Trist oedd gorfod ffarwelio ag aelod sydd wedi bod mor ffyddlon i'r capel ers bron i ddeugain mlynedd ac yn flaenor ymroddgar ers bron i ddeg mlynedd ar hugain. Yn ystod y blynddoedd diwethaf bu Bryn Lloyd yn cyflawni dwy swydd hollbwysig i'r capel, sef Goruchwyliwr yr Adeiladau ac Ysgrifennydd Ariannol. Bydd bwlch enfawr ar ei ôl.

Ar ddiwedd ei gyfarfod olaf o Bwyllgor y Swyddogion, cyflwynodd y Gweinidog rodd iddo fel arwydd o werthfawrogiad ei gyd-swyddogion o'i lafur diflino i'r Achos yn y Garn.

Dymunwn y gorau iddo ef a'i fab, Aled, yn eu cartref newydd. Gobeithio y cânt eu dau flynyddoedd o ddedwyddwch yng nghwmni difyr yr wyrion, Mared a Rhydian, a'u rhieni, Nerys ac Ifer.

'Da yw moliannu yr Arglwydd'

***Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
yng Nghapel Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth
Dydd Sul, 11 Mai 2014***

***Cyfarfod y plant am 10 o'r gloch
Cymanfa'r oedolion am 5.30 o'r gloch***

Arweinydd: Mrs Margaret Daniel

Trefn y Rihyrsals

Bydd pob rihyrsal yn dechrau am 7 o'r gloch

Nos Fercher	26 Mawrth	Y Morfa, Aberystwyth
Nos Fercher	2 Ebrill	Bethel, Tal-y-bont
Nos Fercher	9 Ebrill	Seion, Aberystwyth
Nos Fercher	16 Ebrill	Y Garn, Bow Street
Nos Fercher	30 Ebrill	Horeb, Penrhyn-coch
Nos Fercher	7 Mai	Bethel, Aberystwyth





Rhai o blant ysgol Sul Bow Street yn ffilmio golygfa allan o stori'r Pasg, dan gyfarwyddyd Rhodri. Bwriedir dangos y ffilm (fer) yn ystod gwasanaeth Pasg yr Ofalaeth ar 20 Ebrill.

O Arglwydd y gwanwyn, anadla drwy'r tir
a deffro ein daear o gwsg sydd mor hir,
boed gwres anorchfygol dy gariad dy hun
yn ffrwydro gorfoledd yng nghalon pob un.

Dy nerth ar ein daear, O Arglwydd y wyrth,
ddeisyfwn i dreiglo y meini o'r pyrth,
dy nerth i gyfannu rhwygiadau yr oes,
y nerth a goncwerodd waradwydd y groes.

Llewyrcha, O Arglwydd, oleuni dy ffydd
i symud ffôl rwystrau ein bywyd bob dydd,
i aileni'r cariad a buraist drwy boen
a'i wrid yn disgleirio tangnefedd yr Oen.

O ffynnon dy glwyfau daioni a dardd
mor fywiol ei ffrydiau â'r chwÿs yn yr ardd;
dros grastir ein bywyd, O Arglwydd yr had,
llifeiried dy wanwyn yn ddwyfol fwynhad.

Vernon Jones
(Caneuon Ffydd, rhif 110)

Ebrill

Blaenor y Mis: Marian B Hughes

I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James

Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa

- 2 Cwrdd Chwiorydd y Garn
Mynd allan am de prynhawn
- 6 Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

Oedfa'r hwyr yn y Garn am 5 o'r gloch
dan arweiniad y Barch Judith Morris
- 13 *Sul y Blodau*
Parch Adrian Williams
- 18 Oedfa gymun ar fore'r Groglith yn y Garn am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Elwyn Pryse
- 20 *Sul y Pasg*
Oedfa Basg yr Ofalaeth yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch
- 27 Parch Ddr John Tudno Williams



Crefydd Ar Lein

Bu datblygiad y dechnoleg yn un o'r dylanwadau mwyaf ar ein bywydau yn ystod y chwarter canrif diwethaf. Mae'r newid wedi bod yn syfrdanol i'r canol oed a'r to hŷn. O safbwynt y plant a'n pobol ifanc mae yno i'w defnyddio ac i'w chymryd yn ganiataol. Mae'r cyfrifiadur nawr yn rhan o gelfi'r mwyafrif o gartrefi ac mae'n gyfrwng cyfathrebu effeithiol ac yn ffynhonnell o wybodaeth ddiderfyn, sydd bron yn anhepgor bellach.

Mae rhai capeli blaengar wedi arbrofi ac wedi cyflwyno'r dechnoleg mewn gwasanaethau yn llwyddiannus a darganfod trwyddo fod modd gwneud crefydd yn fwy perthnasol a chyfathrebu yn fwy effeithiol gyda chynulleidfaoedd, a hynny nid dim ond gyda phlant a theuluoedd ifanc.

Mae Capel y Garn eisoes wedi cymryd camau blaengar drwy sefydlu a datblygu gwefan sydd gydag un o'r goreuon: www.capelygarn.org ac mae gwybodaeth am weithgareddau'r capel wedi ei chylchredeg ymysg aelodau'r capel drwy gyfrwng ebyst. Mae cyfrif trydar @capelygarn eisoes wedi denu 75 o ddilynwyr.

Y cam naturiol nawr yw gwneud llawer mwy o ddefnydd o dechnoleg yn ein cyfarfodydd ac yn ein gwasanaethau. Fel cam cynta mae angen diweddarau system sain y capel, ac wedyn, mae angen arbrofi gyda systemau gweledol fel bod modd cynnwys geiriau emynau, penawdau a delweddu ar sgrin. Mae'r potensial yn ddiderfyn, a gall agor drysau newydd i ni ddefnyddio amrywiaeth llawer ehangach o gerddoriaeth, darluniau a ffilm.

Awgrymwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Eglwys y byddai cael cyfarpar cyfieithu yn hwyluso gwasanaethau lle mae angen defnyddio Saesneg ar hyn o bryd ac yn cynnig dewis i deuluoedd.

Gall symud i'r cyfeiriad hwn gyfoethogi ein dulliau o addoli a chyflwyno neges yr efengyl mewn cyfryngau sy'n llawer mwy perthnasol i'n ffordd ni o fyw heddiw.

Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn ac rydym yn ddiolchgar i Gronfa Eleri am rodd o £1,600. tuag at gostau'r cam pwysig hwn yn hanes Capel y Garn.


*Wynne Melville Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Eglwys*

Mai

Blaenor y Mis: Dewi G Hughes

I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins

Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn

- 4 Parch. Elfed ap Nefydd Roberts
Aelodau'r Noddfa'n ymuno yn y Garn
- 9 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch
- 11 Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
Capel Bethel, Aberystwyth
Gwasanaeth y Plant am 10 o'r gloch
Cymanfa'r Oedolion am 5.30 o'r gloch
dan arweiniad Mrs Margaret Daniel
- 18 Sul Cymorth Cristnogol
Gwasanaeth arbennig
am **10.30** o'r gloch
Cinio Bara a Chaws yn y festri i ddilyn

Oedfa gymun dan arweiniad y Bugail am 5 o'r gloch
- 25 Parch Ddr Goronwy Prys Owen



Yn dilyn y madawiad Bryn Lloyd, rydym yn falch o gyhoeddi mai'r Ysgrifennydd Ariannol newydd yw Bryn Roberts, tra bydd Dewi G Hughes yn gyfrifol (yn y tymor byr) am oruchwylio'r adeiladau. Diolch i'r ddau ohonynt am eu parodrwydd i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

Mehefin


Blaenor y Mis: D Elystan-Morgan

I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian B Hughes

Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa

- 1** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa
Oedfa'r hwyr yn y Garn am 5 o'r gloch
dan arweiniad Miss Beti Griffiths
- 3** Cyfarfod o'r Pwyllgor Eglwys am 7 o'r gloch
- 8** *Sul y Pentecost*
Mr Richard Llwyd Jones
- 15** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore
- 22** Parch Edwin Hughes
- 29** *Cymanfa Dydd yr Arglwydd*
Gŵyl yr Ysgolion Sul yn y Morlan am 11.15
Thema: 'Arwyr'

Gwasanaeth y Cymun yn y Garn am 2 o'r gloch
Pregethir gan y Parch Ddr D Ben Rees



Gwasanaeth Gŵyl Ddewi



Ymunodd cynulleidfaoedd Noddfa a'r Garn ac eglwysi Gofalaeth y Garn mewn gwasanaeth Gŵyl Ddewi yn y Garn ar yr 2il o fis Mawrth. Gweinidog Noddfa, y Parch Richard Lewis, oedd wrth y llyw, a phlant Ysgol Sul Unedig y Noddfa a'r Garn, ynghyd â'u rhieni, a greodd naws Gŵyl Ddewi i ni yn y rhannau agoriadol. Ar ôl i'r plant a'u hathrawon ymadael i'r festri cafwyd pregeth amserol gan Richard Lewis.

Fel y gwyddoch efallai, bydd y Gweinidog yn treulio cyfnod i ffwrdd o'r ofalaeth rhwng y 25ain o Fawrth a'r 1af o Fai. Bryd hynny, bydd yn ymweld â Bryniau Casia yng ngogledd-ddwyrain yr India, sef maes cenhadol cyntaf y Methodistiaid Calфинаidd. Ei fwriad yw gwasanaethu ymhlith yr Eglwysi Presbyteraidd yn Shillong, yn ogystal â chyflawni gwaith ymchwil yn y Coleg Diwinyddol yno. Mawr yw ei ddiolch i eglwysi'r ofalaeth am ei ryddhau o'i ddyletswyddau yn ystod y cyfnod hwn.

Dymunwn bob bendith i'n Gweinidog ar ei ymweliad ag Eglwys Bresbyteraidd India yn ystod ei gyfnod sabothol. Edrychwn ymlaen at ei groesawu'n ôl atom ddechrau Mai ac at glywed am ei brofiadau yn y wlad arbennig honno.

Chwiorydd y Garn

Catherine Young o Theatr Felin-fach ddaeth atom ym mis Mawrth. Swyddog Dawns yn y Gymuned yw teitl swydd Catherine. Mae ei gwaith bob dydd yn cynnwys dysgu dawns i bobl o bob oed – pobl hŷn, plant bach iawn a’u rhieni, a phobl dan wahanol fathau o anafanteision. Ar ôl dechrau gyda phawb yn tylino’n gilydd yn ysgafn darllenodd gerdd o waith Mererid Hopwood i ni, ac yna’n hannog yn garedig i feddwl am symudiadau fyddai’n mynegi rhai o’r geiriau i gerddoriaeth. Merched y Cyrion oedd wedi paratoi’r te.

Grŵp Help Llaw

Diwedd y flwyddyn, fe glywsom ni am ‘Fish and Chip Babies’, sef babanod newyddanedig yn Uganda sy’n cael eu hanfon adre wedi eu lapio mewn papur newydd i’w cadw’n gynnes. Penderfynwyd ymuno â chywaith i wau topiau bach lliwgar iawn ar gyfer babanod tebyg, ac yn y cyswllt yma rydyn ni’n hynod o ddiolchgar i Mrs Lilian Magor, un o’n haelodau mwyaf cynhyrchiol. Dros y blynyddoedd mae Lilian wedi gwau cannoedd o siwmperi, blancedi, topiau ac ati ar gyfer yr anghenus. Diolch, Lilian.

Rydym yn gwerthfawrogi pob cyfraniad, yn stampiau ar gyfer Oxfam, sbectolau i Vision Aid Overseas, llyfrau i’r stondin a gwllân DK.



Rydym yn anfon eich cofion cynhesaf at aelodau sydd wedi methu dod i Help Llaw yn ddiweddar – at Ann Wynne Jones, Morfudd Rhys Clark a Marjorie Hughes. Gobeithio y cawn eich cwmni eto cyn bo hir.

Bethan Jones (611502)

Shân Hayward (828268)

Cofio'r Rhyfel Mawr

Efallai fod rhai ohonoch wedi clywed sibrydion fod Pwyllgor yr Ofalaeth wedi bod yn cwrdd yn amlach nag arfer yn ddiweddar. Efallai hefyd i ambell un glywed bod canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn digwydd eleni. Mae cysylltiad, ond nid neidio ar y *bandwagon* rydym ni.

Ers yr hydref, a chyn hynny, roedd awydd gan y pwyllgor i ehangu ein tystiolaeth yn yr ardal, i ddod â Christnogaeth i sylw ein cymunedau a'i chyflwyno fel rhywbeth perthnasol i'r unfed ganrif ar hugain. Daeth yn amlwg yn fuan fod manteision i'w cael o gydweithio, felly mae eglwysi'r Bedyddwyr a'r Annibynwyr yng ngogledd y sir wedi ymuno â ni (ac yn cwrdd dan yr enw 'Pwyllgor y Tair Gofalaeth' am y prosiect hwn). Mae arbenigedd proffesiynol yn dod o arweiniad yr awdur a'r cyfarwyddwr Euros Lewis.

Nid yw ein cynlluniau terfynol wedi'u penderfynu eto, ac nid yw'n sicr ym mha gyfrwng (neu gyfryngau) y bydd y gwaith terfynol yn ymddangos, ond byddwn yn cyflwyno effaith y Rhyfel Mawr yn ein hardal ni, gyda'i wahanol agweddau a'i gymhlethdodau, y cwbl o safbwynt Cristnogol. Rydym yn gobeithio cael cyfraniadau gan ysgolion a grwpiau eraill, ac i ddod â'r cwbl i fwcl, bydd angen amrywiaeth o ddoniau, felly bydd cyfle i bawb gyfrannu. Gwylwch y gofod hwn.

Os oes gennych chi unrhyw ddeunydd perthnasol i'r Cofio – yn lluniau, llythyrau neu atgofion teuluol am y cyfnod, byddem yn falch o glywed gennych.

Cysylltwch â'r ysgrifennydd, John Leeding (glannant@googlemail.com; 01970 832672) neu â golygyddion 'Gair o'r Garn'.


Mae gwefan arbennig, Cymru'n Cofio (www.cymruncofio), sydd wedi ei sefydlu gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn cynnwys gwybodaeth ar goffâd y canmlwyddiant yng Nghymru ac mae deunydd diddorol iawn wedi'i ychwanegu ati.

Ffiniau ac Arfordir Ffydd
yw teitl cyfrol newydd
ddiddorol a heriol gan
Pryderi Llwyd Jones.

Ynddi mae'n ystyried
ffiniau a therfynau o bob
math, ac yn rhoi sylw
penodol i gymuned Iona,
a'i sylfaenydd George
MacLeod.

Cyhoeddwyd y gyfrol gan
y Lolfa; pris £3.95.

Dyma ddau ddyfyniad i roi
blas o'r gyfrol i chi:



Yr ydym yn cael ein galw fel Cristnogion i groesi ffiniau, i gerdded arfordir ffydd ac i roi sylw i 'ddiwinyddiaeth y ffin' gan fod bron pawb ohonom yn byw bywyd sy'n gyson ar ffiniau: ysbrydol/materol, drwg/da, Cymraeg/Saesneg. Ni fu bywyd erioed mor syml â phlant da neu ddrwg y Rhodd Mam, credu neu anghredu, ennill neu golli, ond mewn oes pan fo gwaddol yr etifeddiaeth Gristnogol, yn ogystal â'r gwahaniaeth honedig rhwng y 'crefyddol' a'r 'ysbrydol', yn gynyddol amlwg, y mae hynny'n fwy gwir nag erioed. ... Dyma'r ffin yr oedd Iesu yn barod iawn i'w cherdded, a'r ffin hon oedd ei gynefin a maes ei weinidogaeth. Ond i'r bobl y daeth wyneb yn wyneb â hwy ar y ffin fe aeth yn 'drothwy' i brofiadau adnewyddol a gobeithiol. ...

Fe ddywedir yn aml mai ychydig bellach sy'n medru gweddio yn gyhoeddus o'r frest, fel petai hynny'n drychineb fawr. Y drychineb, yn hytrach, yw y gall gweddïau ein haddoliad cy hoeddus fod yn fewnbylg ac arwynebol neu hyd yn oed yn hunanol o unigolyddol, fel petai gan yr Hollalluog fwy o ddiddordeb ynom ni na neb na dim arall. Mae'n fwy o weddi o'r ogof lle'r ydym yn cuddio nag o'r arfordir lle'r ydym yn troi i gyfeiriad y gorwel. Ac os mai'r Beibl yw sylfaen pob addoliad, fel yr ydym wedi ei bwysleisio, yna tu'r gorwel a thu hwnt i ffiniau y dylai ein ein golygon fod.

Newyddion Penllwyn

Bore Sul, 22 Rhagfyr, cawsom wasanaeth Nadolig plant yr ysgol Sul. Bu'r plant yn brysur yn paratoi at yr achlysur ac roeddent ar eu gorau unwaith yn rhagor ar y dydd. Braff oedd cael cwmni eu rhieni a ffrindiau yn bresennol i ddathlu Gŵyl y Geni. Croesawyd ein Gweinidog i'n plith ac ef a fu'n sgwrsio â'r plant wrth ddadansoddi ystyr y cracer Nadolig a'i neges i bob un ohonom. Gwnaed casgliad yn yr oedfa at waith yr ysgol Sul. Braff fyddai cael cwmni rhagor o blant bach i ymuno â ni o Sul i Sul am ddau o'r gloch y prynhawn.

Yn dilyn, ar Sul 5 Ionawr, cynhaliwyd parti'r ysgol Sul. Mwynhawyd gemau a chwaraeon o bob math cyn i'r danteithion ddod i'r bwrdd, a phawb yn awchus am ddechrau'r wledd. Ymunodd y Parch Wyn Morris â ni i gael te, ac ef a gyflwynodd yr anrhegion i bob plentyn. Diolch i bawb am bob cyfraniad tuag at y parti a'r anrhegion.

Dydd Mercher, 15 Ionawr, roedd yn fraint gennym fel eglwys gael croesawu'r Henaduriaeth i Gapel Penllwyn. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan wragedd y capel, a thair awr yn ddiweddarach roedd pawb yn awchu am baned o de; ni chafodd y gynulleidfa ei siomi – roedd gwledd yn eu disgwyl yn y festri.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad gan y Parch Elwyn Pryse.

Cymdeithas y Paith

Capel Seion

Nos Fercher, 5 Mawrth, daeth blwyddyn y Gymdeithas i ben gyda noson o ddathlu Gŵyl Ddewi yn Neuadd y Paith. Croesawyd pawb i'r swper gan y Cadeirydd, John Gwynn Jones, Awelon, a diolchodd i bawb a fu'n paratoi'r noson ac yn arbennig i aelodau'r Pwyllgor Lluniaeth am y cawl a'r danteithion i ddilyn. Diolchodd Ina Tudno i John Gwynn a'r swyddogion eraill am eu harweiniad dros y flwyddyn. Cyfeiriodd at gymal cyntaf comisiwn Dewi: 'Byddwch lawen', a bod llawenydd i'w deimlo'n amlwg yng ngweithgareddau'r noson. Y gŵr gwadd oedd John Meredith, gynt o Gapel Seion, ond bellach o Flaenpennal, a braf fu cael cwmni Tegwen hefyd. Yn dilyn y wledd yn y neuadd neilltuwyd i'r capel ar gyfer cyngerdd gan Fois y Gilfach, dan arweiniad Heledd Williams. Noddwyd y côr gan roddion hael oddi wrth Mr Peter Griffiths a theuluoedd y diweddar William a Mair Evans, sef Einir Rattray a Glenda Leyshon. Cafwyd rhaglen safonol o gerddoriaeth draddodiadol a chyfoes ganddynt mewn lleisiau arbennig o gyfoethog a swynol. Diolchwyd i'r côr gan John Tudno Williams ac i orffen y noson dychwelwyd i'r neuadd eto i gymdeithasu a gorffen y cawl!! Roedd hon yn noson deilwng iawn i gloi'r tymor.

Agorwyd y Gymdeithas ym mis Hydref gyda Pharti Cantre'r Gwaelod, dan arweiniad Eleri Roberts; cafwyd nosweithiau o atgofion yng nghwmni Mr Idris Morgan, Banclyn, Bontnewydd; Mr Aneurin Davies, Silian; a Mrs Eileen Sinnet Jones, Aberystwyth. Dathlwyd y Nadolig gyda noson o garolau yng nghwmni Ina a John Tudno Williams.

Y swyddogion ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd: Cadeirydd, Ina Tudno; Ysgrifenyddes, Valerie Davies; Trysoryddes, Anita Owen; a Gohebydd y Wasg, Susan Lloyd Hughes.

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Cyfarfu'r Chwiorydd yn festri Rehoboth, Taliesin, brynhawn Mawrth, 10 Rhagfyr. Traddodwyd gweddi gan Eiriona Metcalfe i ddechrau'r cyfarfod, ac yna estynnodd groeso i'n gwraig wadd, sef Catherine Woodward, Bethania. Bu Catherine yn casglu mygiau ers dros ddeugain mlynedd, ac erbyn hyn mae ganddi 1,300 yn ei chasgliad. Daeth â chant ohonynt i'w dangos i ni gan egluro sut y daethant i'w meddiant a phwy a'u rhoddodd iddi. Cawsom brynhawn difyr iawn yn ei chwmi, a diolchwyd iddi gan Non Griffiths. I ddilyn, mwynhawyd te, mins peis a chacennau bach wedi eu paratoi gan Eiriona Metcalfe a Carys Briddon.

Cafwyd prynhawn diddorol ac addysgiadol ar brynhawn Mawrth, 14 Ionawr, pan groesawyd Carwen Fychan, Aberystwyth, atom i sôn am enwau strydoedd y dref. Traddodwyd gweddi gan y Parchedig Judith Morris ar ddechrau'r cyfarfod, ac yna cyflwynwyd y wraig wadd. Gwnaeth Carwen lawer o ymchwil i hanes y dref, a chawsom ganddi eglurhad pam mai Aberystwyth yn hytrach nag Aber-rheidol yw enw'r dref: sefydlwyd castell cyntaf y dref ger Tan-y-bwlch, lle llifa afon Ystwyth i'r môr, ac yn naturiol felly enwyd y dref yn Aberystwyth gan mai yno roedd aber afon Ystwyth. Yn 1277 adeiladwyd y castell presennol, a symudodd safle'r dref o Dan-y-bwlch i'r safle hwnnw. Dylanwadodd hanes y dref ar enwau'r strydoedd, a phwysleisiodd Carwen bwysigrwydd cofnodi'r hen enwau ar strydoedd, tai ac adeiladau'r dref fel nad ânt yn angof. Diolchwyd iddi am brynhawn hynod o ddiddorol gan Myfanwy Rowlands. Ann Jenkins, Margaret Jones a Tegwen Jones oedd yng ngofal y te a fwynhawyd ar y diwedd.

Traddodwyd gweddi gan Eiriona Metcalfe ar ddechrau'r cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 11 Chwefror, ac yna croesawodd ein gwraig wadd, Mrs Edwina Davies, Pen-Bont Rhydybeddau, sy'n ymddiddori ymhob math o waith llaw. Eglurodd fel y penderfynodd y trigolion lleol ddefnyddio adeilad Ysgol Gynradd Trefeurig fel canolfan gymdeithasol pan gaewyd yr ysgol. Roedd y clwb Dros 60 yn cyfarfod yno'n wythnosol, a phenderfynwyd creu murlun i'w hongian ar wal yr hen ysgol. Cymerodd y murlun flwyddyn a hanner i'w gwblhau, ac fe'i dadorchuddiwyd yn 2010 gan Mrs Valma Jones, cyn-brifathrawes yr ysgol. Talwyd y diolchiadau am brynhawn pleruser iawn gan Beti Wyn Davies, ac Ann Humphreys oedd yng ngofal y te.



Y Gwanwyn

A weli di'r wŷyn bach yn prancio?

'Rôl gaeaf mor galed a chas.

A weli di'r blodau'n blaguro?

Rhai euraidd a phiws a rhai glas.

A weli di goed noeth yn edrych

fel hen wraig mewn coban fawr wen?

Ond pan ddiflanna yr eira,

Gwelir mop o wallt ar ei phen!

A weli di'r cennin Pedr fel mantell

yn ymestyn dros dirwedd mor hardd?

A glywi di gân y gwcw

tra'n eistedd yng nghrombil yr ardd?

A glywi di fwrlwm eisteddfod

Lle y dathlwn ein Cymreictod ni?

Canu, dawnsio, llefaru ac actio

A barddoni gan drio odli!

A ddathlu di'r Pasg, a chofio am Ef;

Yr Iesu, a aberthodd ei hun?

Fe lowciwn ni wyau heb holi pam,

Atgyfodiad yr arbennig un!

A deimli di'r awel fwyn yn sïo?

A weli di'r blodau'n blaguro?

Wŷyn bach yn prancio a'r dail ar y coed?

Y gwanwyn prydfferthaf erioed!



Rhys Tanat Morgan



Llongyfarchiadau calonnog iawn i Rhys Tanat Morgan, enillydd y gadair yn Eisteddfod Ysgol Rhydypennau.

Mae gen i

Mae gen i
Flodyn o Galilea,
Deilen o Gethsemane
A channwyll o Galfaria . . .

Mi fetia i bod 'na floda
Yn bob man
Pan oedd Iesu'n prygethu;
Bloda bob lliwia
A'r bobl yn methu'u gweld nhw
Gan ddagra
Wrth wrando
Ar eiria'r Gwynfyda.

A mi oedd 'na ddail
Bychin bach ar y coed
Yn siffrwd fin nos
Yn Gethsemane'n fanno,
Dail olewydd bach melfad
Ar hen, hen goed
Oedd yn glyma i gyd
Uwch 'i ben O.

Ond doedd 'na ddim kannwyll
Ar Golgotha
I ollwng dagra o wêr.
Dim ond twllwch,
A'r ddaear yn rhwygo,
Yn sigo'n felltgedig o ddi-ddallt.
Doedd 'na ddim gola yno
– Gola egwan kannwyll –
Dim ond lleisia'n gweddïo.

Gei di chwerthin, os lici di,
Ond mae gen i flodyn o Galilea,
Mae gen i ddeilen o Gethsemane
A channwyll o Galfaria.
A rwsut, mae'r rhain
Yn dŵad ag Ynta yn nes ata i.

Cerdd gan Nesta Wyn Jones o'r gyfrol *Rhwng Chwerthin a Chrio* (Gwasg Gomer), un o ddewisiadau Gwerfyl Pierce Jones yn ei chyflwyniad 'Byd Llên: pori yma ac acw' yng nghyfarfod mis Chwefror o Gymdeithas Lenyddol y Garn.

Eglurodd Gwerfyl fod Nesta wedi bod yn gweithio am gyfnod mewn *kibbutz* yn Israel, a bod y gerdd yn cyfeirio at rai o'r profiadau a gawsai yn ystod y cyfnod hwn ac a oedd wedi ei hysgogi i fyfrio ar ystyr Calfaria.

Cyflwynwyd y siaradwraig gan Gadeirydd y Gymdeithas, Gareth William Jones, ac fe dreuliodd awr ddifyr dros ben yn gwranddo arni'n codi'r cwr ar ei gyrfa wrth ddarllen ei detholiad o farddoniaeth a rhyddiaith, yn cynnwys gweithiau gan Gwyn Thomas, Nesta Wyn Jones, Islwyn Ffowc Elis, D F Marks, T H Parry-Williams, R S Thomas ac eraill.



Ffrindiau Cartref Tregerddan

Barbeciw yn y Cartref
nos Wener, Mehefin 20fed, am 6.30 o'r gloch
Mae croeso cynnes i bawb


Gair y Dydd

Casgliad defnyddiol i gyfoethogi defosiwn personol yn ogystal â gweddïau a myfyrdodau grwpiau mewn eglwysi.

Cyhoeddir y rhifynnau bob tri mis mewn llyfryn hwylus ac maen nhw'n cynnwys awgrymiadau am ddarlleniadau dyddiol, myfyrdod a gweddi fer.

Mae copi o'r rhifyn cyfredol ar gael at ddefnydd unrhyw un yn festri'r Garn.

Os hoffech danysgrifio i dderbyn copi unigol am bris gostyngol o £7 y flwyddyn, cysylltwch â Marian.



Swyddogion yr Ofalaeth

Cadeirydd: Owen Jenkins, Gwedd Ynys, Taliesin

Is-gadeirydd: Heulwen Lewis, Pen-Ilwyn

Ysgrifennydd: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH;
glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **8 Mehefin:**

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
☎01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
☎01970 828662
marian_hughes@btinternet.com